Ombwdsmon Ombudsman
Cymru · Wales
20 Ugain Mlynedd Twenty Years

# Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

## Cyflwyniad

Mae gan gynghorau ystod o ddyletswyddau a phwerau yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n digwydd yn y gymuned. Mae'n rhaid iddynt weithio gyda sefydliadau eraill megis yr heddlu, i fynd i'r afael â'r problemau.

Fel landlordiaid, mae gan gynghorau a chymdeithasau tai ddyletswyddau penodol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr eiddo y maent yn eu rheoli.

Nid ydym yn ymchwilio i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gallwn ond ystyried cwynion am sut mae cyngor neu gymdeithas tai yn ymateb i adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol gynnwys:**

- baeddu gan gŵn, anifeiliaid anwes heb eu rheoli a swnllyd;
- swn niwsans ar lefelau uchel a/neu yn ystod oriau afresymol;
- camddefnyddio cyffuriau a niwsans sy'n gysylltiedig ag alcohol;
- gwaredu sbwriel;
- gweithredoedd o drais;

- aflonyddu, gan gynnwys cam-drin a bygythiadau geiriol a chorfforol.

Gall rhai ymddygiadau fod yn drosedd a dylai'r heddlu ddelio â nhw.

## Beth gallwch chi ei wneud

I roi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol, dylech gysylltu â'ch cyngor neu gymdeithas dai am gyngor, ac i ddod o hyd i beth gallant ei wneud.

Gallwch hefyd gysylltu â'r heddlu.

Os ydych yn anfodlon â sut mae cyngor neu gymdeithas dai yn delio â'ch adroddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gallwch wneud cwyn ffurfiol.

Bydd angen i chi esbonio i'r cyngor neu'r gymdeithas dai pam rydych yn meddwl nad oedd eu gweithredoedd yn briodol.

Os ydych yn anfodlon â sut mae cyngor neu gymdeithas dai yn delio â'ch cwyn, gallwch gwyno i ni. Mae'n bwysig bod y cyngor neu'r gymdeithas dai wedi cael y cyfle i ddatrys materion cyn i chi gysylltu â ni.

## Beth allwn ni ei wneud

Gallwn edrych ar sut y deliodd y cyngor neu'r gymdeithas dai â'ch adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddwn yn ystyried y canlynol:

- a oes ganddo weithdrefnau ar waith i arwain staff ynghylch sut i gofrestru, ymchwilio, a monitro achosion o ymddygiad

gwrthgymdeithasol;

- a yw wedi esbonio'r gweithdrefnau, a sut y cofrestrir ac ymchwilir i adroddiadau;
- a yw wedi ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael i reoli'r ymddygiad, gan gynnwys yr holl weithredoedd cyfreithiol;
- a yw wedi gweithio gydag asiantaethau eraill i fynd i'r afael â'r problemau;
- a yw wedi darparu cymorth i'r dioddefwyr o'r ymddygiad gwrthgymdeithasol, wedi rhoi'r newyddion diweddaraf iddynt, ac wedi cymryd camau angenrheidiol i ddiogelu eu diogelwch;
- a yw wedi delio â'r person sy'n achosi'r broblem yn brydlon.

## Rhagor o wybodaeth

**Heddlu De Cymru:**

https://www.south-wales.police.uk/advice-and-information/asb/asb/antisocial-behaviour

Ymddygiad gwrthgymdeithasol I Heddlu De Cymru

**Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru:**

https://cymunedaumwydiogel.cymru/

Cymunedau Mwy Diogel i Gymru – Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

**ASB HELP:**

https://asbhelp.co.uk

ASB Help I Cyngor a chymorth i Ddioddefwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**Victim Support:**

https://www.victimsupport.org.uk

Ymddygiad gwrthgymdeithasol – Victim Support

## Cysylltu â ni

Os ydych yn ansicr a fyddwn yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni, drwy ffonio 0300 790 0203.

# Hawdd ei ddarllen

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol